Rhwydwaith Diogelu GIG Cymru

Adroddiad Blynyddol 2023-24

Cynnwys

Cyflwyniad y Cadeirydd 4

Ynglŷn â'r Rhwydwaith Cenedlaethol 5

Ynglŷn â'r Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol 5

Rhoi deddfwriaeth a pholisi ar waith 6

Marwolaethau Annisgwyl yn ystod Plentyndod – Gwybodaeth i Deuluoedd 6

Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 6

Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid 7

Cynnyrch ac Adnoddau Cydweithredol 8

Plant sy'n Derbyn Gofal – Arolwg o Fodlonrwydd Cleientiaid 8

Y Matrics Aeddfedrwydd Diogelu 9

Adnodd Archwilio yng nghyswllt Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 9

Gwella Sgiliau Gweithlu Diogelu Hyderus a Chymwys 10

Canolfan Arweinyddiaeth GIG Cymru ar gyfer Diogelu 11

Arweiniad i Oruchwyliaeth Ddiogelu Adferol 12

Gweithdy Goruchwyliaeth Adferol 13

Gweithdy Cyfrifoldebau Meddygol ym maes Diogelu Corfforaethol 14

Gwerthuso Ymarfer ac Effaith y Rhwydwaith 14

Ymarfer Rhanbarthol Arloesol 15

Gwella Ansawdd drwy Oruchwyliaeth Adferol 16

Sicrhau Ansawdd ar gyfer Adolygiadau 17

Sefydlu Rhwydwaith Hyrwyddwyr Diogelu cadarn 18

Sesiwn Friffio a Fideo am Gysgu'n Ddiogel 19

Cynhadledd Gweithlu sy'n Ystyriol o Drawma 20

Asesiadau Iechyd Prydlon i Blant sy'n Derbyn Gofal 21

Poster Cysgu'n Ddiogel 21

Cysylltu Iechyd Meddwl 22

Cam-drin Domestig a'r Menopos 22

Dosbarthiadau Meistr am Faethu 22

Gweithdrefnau Diogelu'n ymwneud â Sbesimenau Microbioleg ac Ymholiadau Clinigol 23

Eiriolwr Annibynnol Trais Domestig 24

Adnabod ac Atgyfeirio i Wella Diogelwch 24

Dysgu Amlasiantaeth o Achosion Diogelu Plant 25

Blaenoriaethau ar gyfer y Dyfodol 26

GIG CYMRU NHS WALES
DIOGELU RHWYDWAITH | SAFEGUARDING NETWORK

Awdur: Shamala Govindasamy
Ebost: NSS@wales.nhs.uk
Mehefin 2024

Cyflwyniad y Cadeirydd

Croeso i Adroddiad Blynyddol Rhwydwaith Diogelu GIG Cymru. Fel Cadeirydd y Rhwydwaith, mae'n bleser cael dangos y gwaith gwerthfawr sydd wedi'i gyflawni ledled Cymru i gadw plant ac oedolion yn ddiogel.

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio ein prif gyflawniadau yn ystod 2023-2024, sef blwyddyn pan brofodd ein cenedl effaith yr argyfwng costau byw sy'n parhau, prisiau uchel ynni, a'r pwysau sydd ar ein gwasanaethau cyhoeddus ar ôl y pandemig. Mae hynny'n cael effaith anghymesur ar ein dinasyddion mwyaf agored i niwed: plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl sy'n profi effaith cyfuniad mwyfwy difrifol o heriau, anghyfiawnderau a rhwystrau niferus sy'n niweidio iechyd a lles. Mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn ymdrechu i wella ein gwasanaethau diogelu'n barhaus er mwyn atal niwed ac er mwyn diogelu'r sawl y mae arnynt angen ein help ni fwyaf.

Rwy'n ddiolchgar i'm cydweithwyr yn ein Byrddau a'n Hymddiriedolaethau iechyd yn y GIG am eu hymrwymiad parhaus i'r Rhwydwaith ac am ddarparu gwasanaethau diogelu ardderchog yn eu rhanbarthau, gyda'u hasiantaethau partner. Mae ein gallu i gydweithredu a chydweithio yng Nghymru yn ein galluogi i ddarparu dull cyson o ddiogelu, sydd o safon ac sy'n esblygu ac yn gwella'n barhaus. Darlun sydyn o waith diflino timau diogelu, a'r hyn y gallwn ei gyflawni gyda'n gilydd, yw'r adroddiad hwn.

Rydym wedi ymrwymo i wella ansawdd a sicrwydd ym maes diogelu, a byddwn yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth y GIG i gryfhau'r angen i fesur effeithiolrwydd gweithgarwch ac ymarfer diogelu. Mae'r gwaith hwn wedi dechrau, ac edrychwn ymlaen at arddangos perfformiad a gwelliannau ym maes diogelu ar lefel genedlaethol.

Byddwn hefyd yn canolbwyntio ar ddysgu ym maes diogelu, gan archwilio'r themâu a'r heriau mynych sy'n deillio o adolygiadau ymarfer, a byddwn yn ceisio nodi beth arall y mae angen ei wneud er mwyn hwyluso canlyniadau gwell. Nod ein digwyddiadau dysgu arfaethedig yw archwilio'r themâu hyn yn fanwl, drwy ddefnyddio safbwyntiau eraill ac arbenigedd megis gwyddor ymddygiad, ymholi gwerthfawrogol a methodoleg gwella i greu newid o ran dealltwriaeth a gweithredu. Mae gan bob un o ddinasyddion Cymru hawl i fyw a ffynnu heb brofi ofn, camdriniaeth, esgeulustod, sefyllfaoedd lle camfanteisir arnynt, trais ar sail rhywedd, a mathau eraill o niwed y gellir ei atal. Bydd y Rhwydwaith yn parhau i adeiladu ar ein cryfderau a'n profiad er mwyn cyflawni ein blaenoriaethau strategol allweddol a diogelu pobl Cymru.

Rwy'n gobeithio y gwnewch chi fwynhau darllen yr adroddiad hwn ac rwy'n hyderu y byddwch yn teimlo ei fod yn addysgiadol. Mae diogelu yn fater i bawb, ac rwy'n eich annog i rannu'r adroddiad ar draws eich sefydliad a thu hwnt.

Louise Mann
Cadeirydd Rhwydwaith Diogelu GIG Cymru

Ynglŷn â'r **Rhwydwaith Cenedlaethol**

Cafodd 'y Rhwydwaith' ei lansio yn 2012 a chaiff ei arwain yn broffesiynol gan Wasanaeth Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru). Mae'n bont hanfodol rhwng strategaethau a threfniadau ar lefel leol a datblygiadau o ran polisi ar lefel genedlaethol er mwyn cynorthwyo Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd GIG Cymru i gyflawni eu cyfrifoldebau i ddiogelu pobl.

Mae'r Rhwydwaith a'i is-grwpiau yn darparu amgylchedd 'cymuned ymarfer' ac yn hwyluso cydweithio, gwella sgiliau, sganio'r gorwel, rhannu heriau ac arfer gorau, datrys problemau ac arloesi. Elfen greiddiol o'r Rhwydwaith yw gwerthuso effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau ac ymyriadau diogelu, yn ogystal â lleihau'r graddau y mae ymarfer yn amrywio ar draws y GIG.

Mae cydweithio yn rhan annatod o arweinyddiaeth y Rhwydwaith. Caiff ei arwain gan Louise Mann o'r Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol a'i gydgadeirio gan Mandy Nichols-Davis o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Gwaith Amlasiantaeth

Mae partneriaid y Rhwydwaith y tu allan i GIG Cymru yn cynnwys Swyddfeydd y Comisiynydd Pobl Hŷn a'r Comisiynydd Plant, Uned Atal Trais Cymru ac asiantaethau allweddol eraill. Mae'r dull hwn o weithio ar draws system yn hwyluso rhannu arfer da a gwybodaeth allweddol am ddiogelu a rhaeadru gwybodaeth er mwyn hyrwyddo cymorth arbenigol effeithiol ar draws pob sefydliad.

Byrddau Diogelu Rhanbarthol

Mae'r chwe Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ar draws Cymru yn cydlynu ymarfer diogelu amlasiantaeth, gan sicrhau effeithiolrwydd trefniadau lleol i ddiogelu pobl Cymru. Caiff y Rhwydwaith ei gynrychioli yn y Byrddau gan y Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol sy'n cyfrannu arbenigedd annibynnol a 'llais iechyd' i ymarfer diogelu amlasiantaeth.

Ynglŷn â'r **Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol**

Mae gan y Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol rôl strategol i'w chwarae o safbwynt cydlynu a rheoli'r hyn y mae'r Rhwydwaith yn ei gyflawni, ac mae'n sicrhau bod y grŵp yn cydweithio'n effeithlon er mwyn darparu gwasanaeth cyson a yrrir gan ansawdd i bobl Cymru.

Mae'r Gwasanaeth yn cynnwys tîm medrus o weithwyr proffesiynol sy'n cynnig arbenigedd, ymarfer wedi'i safoni, hyfforddiant, ac arweiniad arbenigol i gydweithwyr ar draws GIG Cymru, sefydliadau amlasiantaeth a Llywodraeth Cymru.

Ffocws y Gwasanaeth yw darparu arweinyddiaeth gredadwy i'r system, gan ysbrydoli eraill ac ymgorffori dulliau o wella ansawdd mewn trefniadau diogelu ar draws system y GIG.

Rhoi deddfwriaeth a pholisi ar waith

Marwolaethau Annisgwyl yn ystod Plentyndod – Gwybodaeth i Deuluoedd

Y cyd-destun

Mae marwolaeth unrhyw blentyn yn drasiedi enfawr i'r teulu ac i'r gymuned ehangach. Felly, mae'n bwysig bod unrhyw farwolaethau annisgwyl yn ystod plentyndod yn cael eu hadolygu'n ofalus fel bod modd i ni ddysgu cymaint ag sy'n bosibl er mwyn ceisio atal marwolaethau yn y dyfodol a chynorthwyo teuluoedd, gofalwyr a ffrindiau.

Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaethau Annisgwyl yn ystod Plentyndod yw'r broses sy'n disgrifio sut y mae'n rhaid i weithwyr proffesiynol yng Nghymru ymateb i farwolaeth annisgwyl plentyn, er mwyn gwneud yn siŵr bod yr ymateb yn ddiogel, yn gyson ac yn sensitif i anghenion y teulu sy'n galaru.

Taflenni i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol



Er bod asiantaethau sy'n rhan o broses yr Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaethau Annisgwyl yn ystod Plentyndod, megis y sector iechyd, awdurdodau lleol a'r heddlu, yn deall y broses, nodwyd bod angen gwybodaeth glir ar gyfer rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill, sy'n esbonio'r prosesau sy'n digwydd yn dilyn marwolaeth annisgwyl plentyn.

Ar ôl ymgynghori â chynrychiolwyr rhieni, y sector iechyd a'r sector addysg, cafodd dwy daflen eu llunio – un ar gyfer rhieni a gofalwyr ac un arall ar gyfer gweithwyr proffesiynol. Sicrhaodd y broses ymgynghori drylwyr fod y taflenni'n cyfleu proses yr Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaethau Annisgwyl yn ystod Plentyndod yn glir ac mewn modd tosturiol i bawb y mae marwolaeth plentyn yn effeithio arnynt.

Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Yn ystod y cyfnod diwethaf, mae Grŵp Llywio'r Rhwydwaith ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol wedi bod yn mapio ei waith ar sail dangosyddion y Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, gan ganolbwyntio ar y person hŷn ac ar blant a phobl ifanc. Mae'r dangosyddion hynny'n ategu glasbrint Llywodraeth Cymru ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, sef cynllun gweithredu ar gyfer cyd-gynhyrchu dull cymdeithas gyfan o ddileu trais ar sail rhywedd.

Mae gweithgarwch yn ystod y cyfnod hwn yn cynnwys:

- Datblygu adnoddau archwilio ar gyfer y llwybr clinigol sy'n ymwneud ag anffurfio organau cenhedlu benywod
- Rhannu'r hyn a ddysgwyd o Adolygiadau Ymarfer Plant, Adolygiadau Ymarfer Oedolion ac Adolygiadau Dynladdiad Domestig
- Parhau i gymryd rhan mewn ffrydiau gwaith y glasbrint ar gyfer plant a phobl ifanc ac ar gyfer pobl hŷn
- Ymgysylltu am y tro cyntaf â'r Rhwydwaith Ymchwil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Sicrhau ymateb cenedlaethol cydgysylltiedig i ymgyngoriadau gan y llywodraeth.

Yn ystod y cyfnod nesaf, bydd y grŵp yn parhau i fod yn weithgar fel platfform ar gyfer rhannu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, er mwyn cryfhau'r ymateb cenedlaethol ymhellach. Bydd y dull hwn o ymdrin ag arweinyddiaeth ar gyfer y system yn sicrhau bod pawb sy'n dioddef ac yn goroesi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael y gofal, y cymorth a'r wybodaeth briodol gan weithwyr iechyd proffesiynol gwybodus sydd wedi cael llawer o hyfforddiant.

Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid

Y cyd-destun

Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 wedi bod mewn grym ers 2007 ac mae'n berthnasol i Gymru a Lloegr. Prif ddiben y Ddeddf yw hybu a diogelu penderfyniadau o fewn fframwaith cyfreithiol i bawb sy'n 16 oed neu'n hŷn, nad oes ganddynt alluedd meddyliol efallai i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain am eu gofal a'u triniaeth. Mae'n corffori mewn cyfraith yr angen i alluogi pobl i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain ac mae'n sefydlu fframwaith i'w ddefnyddio pan na fydd pobl yn gallu gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain.

Mae Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn rhan o'r Ddeddf. Mae'r weithdrefn yn amddiffyn person sy'n cael gofal ac y mae ei ryddid wedi'i gyfyngu pan na fydd ganddo alluedd i wneud penderfyniadau, drwy wirio bod y penderfyniad a wneir yn briodol ac er ei les.

Gweithgarwch

Yn rhan o gylch gorchwyl y Rhwydwaith o ran diogelu, mae Rhwydwaith Deddf Galluedd Meddyliol/Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid GIG Cymru yn hybu amgylchedd o ddysgu ar y cyd, datblygu, cefnogi a goruchwylio. Mae'r Rhwydwaith mewn sefyllfa dda i fod yn fforwm ar gyfer cydweithio ar brosiectau cenedlaethol a bod yn llais strategol ar ran GIG Cymru i dynnu sylw at faterion y mae angen eu huwchgyfeirio i asiantaethau partner a Llywodraeth Cymru, er mwyn diogelu'r sawl nad oes ganddynt alluedd.

Er yr oedi o ran gweithredu Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) (2019), a'r newid i ddefnyddio Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid a chod ymarfer newydd, mae'r rhwydwaith wedi bod yn weithgar iawn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

- Mae wedi creu cysylltiadau â Fforwm Arweinyddiaeth Strategol GIG Lloegr ynghylch y Ddeddf Galluedd Meddyliol
- Mae wedi dechrau cynllunio ar gyfer integreiddio gofal cymdeithasol yn y rhwydwaith
- Mae wedi llunio cynllun gwaith ac wedi dechrau:
  - Datblygu gwaith papur Cymru gyfan ar gyfer y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid
  - Datblygu fframwaith hyfforddiant ar gyfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, sy'n cynnwys diweddaru pecynnau e-ddysgu cyfredol GIG Cymru
  - Ystyried sut y gall egwyddorion y Ddeddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) a'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid gael eu hymgorffori mewn ymarfer cyfredol sy'n ymwneud â'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.

Cynnyrch ac Adnoddau Cydweithredol

Plant sy'n Derbyn Gofal – Arolwg o Fodlonrwydd Cleientiaid

Mae plant sy'n derbyn gofal ymhlith y grwpiau o bobl sydd fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Yn aml, bydd plant sy'n dechrau derbyn gofal yn llai iach yn gorfforol ac yn feddyliol na'u cyfoedion, sy'n golygu y gallai canlyniadau tymor hwy fod yn waeth iddynt hefyd. Ar hyn o bryd, mae dros 7,200 o blant yn derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru.

Gwrando er newid

Yn rhan o'r angen a nodwyd i ddatblygu adborth ar sail profiad pobl ym maes diogelu, er mwyn llunio gwasanaethau a thriongli data, mae arolwg cenedlaethol wedi'i ddatblygu gyda rhanddeiliaid ac, yn hollbwysig, gyda phobl ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal, gyda chymorth gan Voices From Care Cymru – sefydliad cenedlaethol sy'n cynnal hawliau plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal.

Datblygu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

Bydd yr arolwg yn cael ei ddefnyddio i geisio adborth ynghylch yr asesiadau iechyd statudol o blant sy'n derbyn gofal a'u gofalwyr. Y nod yw sefydlu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan ddefnyddio data amser real i hybu gwelliannau i'r gwasanaeth, sy'n cynnwys nodi beth sy'n bwysig i blant sy'n derbyn gofal a'u gofalwyr a sicrhau bod barn plant a phobl ifanc agored i niwed yn rhan annatod o'r modd y caiff gwasanaeth ei ddarparu. Bydd yr arolwg yn caniatáu ymatebion wedi'u safoni ynghylch bodlonrwydd â'r modd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu, a bydd yn nodi gwybodaeth am themâu a thueddiadau o ran lles, mynediad i wasanaethau a ffyrdd o wella ansawdd.

Arolygon

Mae tri arolwg wedi'u dylunio ar gyfer cleientiaid – plant iau, pobl ifanc a gofalwyr. Mae'r cwestiynau yn canolbwyntio ar y gwerthoedd craidd sy'n cynnwys urddas, parch a diogelwch, ac yn canolbwyntio'n bwysicach na dim ar b'un a yw'r plant a'r bobl ifanc yn teimlo eu bod yn rhan o benderfyniadau a wneir ynghylch eu hiechyd, yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn ddiogel, ac yn teimlo bod gwybodaeth wedi'i rhannu â nhw mewn fformat sy'n briodol i'w hoedran. Ceir blwch testun rhydd hefyd fel y gall y plentyn, y person ifanc neu'r gofalwr awgrymu gwelliannau i'r profiad o gael asesiad iechyd. Bydd opsiwn ar gael yn y dyfodol lle bydd modd ateb y cwestiynau gyda thema wedi'i hanimeiddio, er mwyn mynegi meddyliau a theimladau mewn ffyrdd gwahanol.

Y camau nesaf

Bydd unrhyw blant sy'n derbyn gofal a'u gofalwyr yn cael cyfle i gwblhau'r arolwg drwy god QR, yn dilyn eu hasesiad iechyd statudol. Bydd Byrddau Iechyd yn gyfrifol am ddarparu mynediad i gyfarpar digidol ar gyfer eu plant a'u gofalwyr, casglu a dadansoddi eu data eu hunain, ac adrodd yn ôl ynghylch dangosyddion allweddol i'r Grŵp Llywio ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal, sef un o is-grwpiau'r Rhwydwaith. Bydd hynny'n ei gwneud yn bosibl dadansoddi themâu ar lefel Byrddau Iechyd a chyflwyno datblygiadau penodol i wasanaethau lleol. Ar lefel genedlaethol, bydd yn ei gwneud yn bosibl nodi themâu cyffredin a materion i'w gwella, a mynd i'r afael â'r themâu a'r materion hynny.



Y Matrics Aeddfedrwydd Diogelu

Gweithredu



Adnodd hunanasesu yw'r Matrics Aeddfedrwydd Diogelu, sy'n hybu gwelliannau i ansawdd diogelu ar draws GIG Cymru. Caiff yr adnodd ei gwblhau gan y 7 Bwrdd Iechyd a'r 3 Ymddiriedolaeth GIG a'i ddefnyddio ganddynt yn rhan o'u system sicrwydd. Mae'r Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol yn cael y cynlluniau gwella a ddatblygwyd gan bob sefydliad, sy'n amlygu arfer da, arloesi, mentrau gwella ansawdd a meysydd i'w gwella / datblygu, ac mae'n crynhoi'r wybodaeth er mwyn darparu adroddiad cenedlaethol am wasanaethau diogelu GIG Cymru ar draws Cymru. At hynny, mae'r wybodaeth a gesglir yn helpu i nodi gwelliannau a fyddai'n elwa o ddull Cymru gyfan o weithredu, ac mae'r Rhwydwaith yn defnyddio'r wybodaeth honno i lywio blaenoriaethau ei gynllun gwaith.

Mae'r Matrics Aeddfedrwydd Diogelu yn cynnwys cyfres o chwe safon sy'n sail i'r broses hunanasesu:

1 | Trefniadau llywodraethu a dulliau gweithredu'n seiliedig ar hawliau

2 | Gofal diogel

3 | Gwybodaeth am brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod

4 | Diwylliant o ddysgu

5 | Trefniadau amlasiantaeth ar gyfer gweithio mewn partneriaeth

Archwilio

Ar ôl adolygu'r adnodd yn ystod y cyfnod diwethaf, cafodd gwerthusiad ansoddol ei gynnal. Roedd y canfyddiadau'n gadarnhaol, a chadarnhaodd sefydliadau fod y Matrics Aeddfedrwydd Diogelu yn adnodd sicrwydd cadarn sy'n ddefnyddiol i feincnodi gwaith diogelu lleol yn erbyn safon genedlaethol. Cafodd Cynlluniau Gwella Corfforaethol yn ymwneud â'r Matrics Aeddfedrwydd Diogelu eu cymeradwyo gan bwyllgorau diogelu lleol, a gwnaethant gyfrannu i Adroddiadau Blynyddol. Mae gwelliannau a awgrymwyd ar gyfer y dyfodol yn cynnwys amserlen weithredu ddiwygiedig sy'n cyd-fynd â'r gwaith o gyflwyno adroddiadau corfforaethol, a datblygu model dangosfwrdd data byw.

Adnodd Archwilio yng nghyswllt Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod

Mae Llwybr Clinigol Cymru Gyfan yng nghyswllt Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod yn llwybr a ddatblygwyd gan y Rhwydwaith, sy'n darparu arweiniad i weithwyr proffesiynol GIG Cymru ar sut mae ymateb yn briodol i bryderon am anffurfio organau cenhedlu benywod. Caiff yr adnodd ei roi ar waith:

- **Pan nodir achos newydd o anffurfio organau cenhedlu benywod**
- **Pan amheuir bod yna achos newydd o anffurfio organau cenhedlu benywod**
- **Pan amheuir y gallai fod yna gynlluniau i anffurfio organau cenhedlu benywod yn y dyfodol**

Gyda chymorth y Grŵp Llywio ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, cafodd adnodd archwilio cenedlaethol ei ddatblygu ar y cyd â gweithwyr diogelu proffesiynol GIG Cymru, sy'n ymdrin â'r tri llwybr clinigol: y llwybr ar gyfer beichiogrwydd, y llwybr pediatrig a'r llwybr ar gyfer oedolion. Bydd yr adnodd archwilio yn hybu cysondeb wrth adrodd am ddata hanfodol ynghylch amlder achosion o anffurfio organau cenhedlu benywod ar draws Cymru ac ynghylch y gwaith o adnabod achosion o'r fath, a fydd yn cynnwys data ynghylch y grwpiau oedran, y grwpiau ethnig a'r wlad y cafodd organau cenhedlu benywod eu hanffurfio ynddi ac adroddiadau sefydliadol gyda'r Uned Atal Trais a gwasanaethau statudol.

Bydd defnyddio'r adnodd archwilio ar draws Cymru yn fodd i gael gwybodaeth werthfawr a fydd yn hwyluso mwy o ymwybyddiaeth broffesiynol, yn gwella'r graddau y glynir wrth y broses gywir, yn lleihau achosion o amrywio, ac yn cyfrannu i ganlyniadau gwell ar gyfer benywod a merched y mae eu horganau cenhedlu'n cael eu hanffurfio neu y mae perygl y gallai eu horganau cenhedlu gael eu hanffurfio.

Gwella Sgiliau **Gweithlu Diogelu Hyderus a Chymwys**

Canolfan Arweinyddiaeth GIG Cymru ar gyfer Diogelu

Gwella
Porth Arweinyddiaeth AaGIC i Gymru

Cafodd y Ganolfan Arweinyddiaeth ar gyfer Diogelu ei lansio yn ystod yr Wythnos Genedlaethol Diogelu (ym mis Tachwedd 2023) ac mae'n defnyddio platfform arweinyddiaeth 'Gwella' Addysg a Gwella Iechyd Cymru ac yn galluogi aelodau'r Rhwydwaith i gael gafael ar ddeunydd y Ganolfan, sydd wedi'i deilwra, ac ar gynnwys ehangach 'Gwella' ynghylch arweinyddiaeth.

Mae'r Ganolfan yn croesawu gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n gweithio ym maes diogelu: y sawl sydd mewn swyddi arwain ym maes diogelu, y sawl sydd mewn swyddi arbenigol ym maes diogelu, neu hyrwyddwyr diogelu yn eu hardal.

Nod y Ganolfan yw bod yn gyfleuster sy'n cysylltu cymheiriaid diogelu â'i gilydd ar draws Cymru, a'i gwneud yn bosibl iddynt gael gafael ar adnoddau diogelu er mwyn hybu eu datblygiad proffesiynol. Mae potensial mawr yn perthyn i'r Ganolfan, ac mae'n awyddus i hybu cymwyseddau dysgu ym maes diogelu, sefydlu clwb trafod cyfnodolion, a chlywed straeon o faes arweinyddiaeth sy'n hybu gwaith myfyrio personol a gwaith cynllunio olyniaeth.

Bydd y Ganolfan Arweinyddiaeth ar gyfer Diogelu yn ymestyn ac yn datblygu'r gymuned ymarfer hon i bawb sy'n arwain gwaith diogelu ar draws y GIG, drwy:

- Greu cysylltiadau ar-lein rhwng cydweithwyr a chymheiriaid o Fyrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd ar draws Cymru gyfan.
- Defnyddio'r platfform ar gyfer trafodaethau i gael sgyrsiau proffesiynol.
- Tynnu sylw at adnoddau diogelu cyfoes er mwyn cael gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth.
- Rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf yn gyson â gweithwyr proffesiynol am waith Rhwydwaith Diogelu GIG Cymru a'r Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol.

Arweiniad i Oruchwyliaeth Ddiogelu Adferol

Y cyd-destun

Mae llwythi gwaith ym maes diogelu'n tyfu o ran eu maint a'u cymhlethdod, a gall pob gweithiwr proffesiynol deimlo bod hynny'n lladdfa ac yn rhywbeth na allant ddianc rhagddo. Mae cam-drin plant ac oedolion yn dreth ar emosiynau pobl, sy'n golygu bod yn rhaid i arweinwyr diogelu fod yn gydnerth iawn bob amser er mwyn cynghori ac arwain pobl eraill.

Nod Goruchwyliaeth Ddiogelu Adferol yw hybu canlyniadau cadarnhaol i blant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg, gan ddefnyddio'r berthynas oruchwylio i greu amgylchedd tawel a diogel. Mae hynny'n helpu'r ymarferydd i feddwl, myfyrio a gwella yn dilyn trawma diogelu a ddioddefir dros eraill. Mae Goruchwyliaeth Adferol yn rhoi cyfle i drafod a dysgu; mae'n galluogi ymarferwyr i brosesu sefyllfaoedd achosion, gan ddefnyddio chwilfrydedd proffesiynol ynglŷn â'r anghenion o ran diogelu sydd gan blant ac oedolion sy'n wynebu risg.

Drwy'r gwaith hwn, mae Rhwydwaith y GIG a'r Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol wedi codi proffil y ffaith bod lles a chydnerthedd arweinwyr yn hanfodol i'w capasiti a'u gallu i arwain pobl eraill yn effeithiol. Rydym yn argymell bod ymgorffori'r elfen adferol yn hanfodol ym mhob agwedd ar oruchwyliaeth ddiogelu, ar gyfer sesiynau gydag unigolion a sesiynau grŵp.

Yn y dyfodol

Mae'r Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol wedi cynnig model Goruchwyliaeth Adferol ym maes diogelu, sy'n defnyddio'r model A-EQUIP ac sy'n cael ei ddarparu gan eiriolwyr cymwys sy'n nyrsys proffesiynol. Canolbwyntir ar ddiogelwch seicolegol, arweinyddiaeth dosturiol a gwella ansawdd, a bydd sesiynau grŵp wedi'u teilwra yn cael eu cynnig i arweinwyr diogelu a'u dirprwyon o'r Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol.

Bydd gwaith yn parhau ar greu llwybr a chyfres glir o gymwyseddau ar gyfer ymarferwyr sy'n darparu Goruchwyliaeth Ddiogelu, a fydd yn egluro sut beth yw Goruchwyliaeth Ddiogelu Adferol o safon a sut y gall hybu datblygu ymarferwyr cydnerth.

Yn y dyfodol, bydd y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu ymhellach ar y cyd ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru er mwyn mynd i'r afael â Goruchwyliaeth Ddiogelu Adferol a Goruchwyliaeth Ddiogelu ehangach, a hybir ymhellach gan raglen flaengar o addysg a gwaith dysgu.

Gweithdy Goruchwyliaeth Adferol

Ym mis Mawrth 2024, daeth y Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol â phenaethiaid diogelu, eu dirprwyon a nyrsys uwch ynghyd i sesiwn ddysgu wedi'i theilwra.

Roedd y sesiwn yn ymdrin â diogelwch seicolegol, arweinyddiaeth dosturiol a chyflwyno canfyddiadau ymchwil doethuriaeth Dr Michelle Moseley, a bydd yn llywio'r gwaith o ddatblygu model ar gyfer Goruchwyliaeth Ddiogelu Adferol a ddefnyddir ledled y GIG yng Nghymru.

Roedd lleoliad heddychlon Elan Valley Lodge yn fan perffaith i fyfyrio er mwyn dysgu a chael trafodaethau agored, gyda chymorth gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Roedd y gweithdy'n fodd i wella ymwybyddiaeth y sawl a oedd yn bresennol o ddiogelwch seicolegol eu timau ac o'u diogelwch seicolegol eu hunain, ac o'r angen i wrando er mwyn clywed a deall yn hytrach na gwrando er mwyn ymateb. Mynegodd cydweithwyr yr angen i fabwysiadu dull mwy myfyriol o weithredu ac i fod yn fwy caredig tuag atynt eu hunain, a buont yn trafod diogelwch seicolegol o fewn eu timau hefyd.

Mae cynnwys y cwrs yn bodloni gofynion y ddogfen ryng-golegol o ran cymwyseddau diogelu, ar Lefelau 4 a 5, a adlewyrchwyd gan Dystysgrif Presenoldeb. At hynny, cytunodd aelodau'r Rhwydwaith i lofnodi Addewid Arweinyddiaeth Dosturiol Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

Mae cynlluniau yn y dyfodol yn cynnwys hwyluso profiad tebyg gyda chydweithwyr meddygol yn nes ymlaen yn 2024.

Fe wnes i fwynhau'r digwyddiad ysbrydoledig hwn yn fawr iawn.

Roeddwn yn teimlo fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi fel rhywun sy'n rhan o'r Rhwydwaith Diogelu, a gwnaeth y cyfle i gael y profiad hwn mewn lleoliad hamddenol wella fy ymarfer proffesiynol.

Gweithdy Cyfrifoldebau Meddygol ym maes Diogelu Corfforaethol

Cafodd gweithdy diogelu ei gyflwyno i Gyfarwyddwyr Meddygol Gweithredol Cymru Gyfan ym mis Medi 2023 ar ôl dysgu o gyfres o farwolaethau plant yng Nghymru, a oedd yn uchel eu proffil.

Roedd yr amcanion dysgu'n cynnwys:

- Deall y rolau ym maes diogelu corfforaethol, llinellau cyfrifoldeb, a'r berthynas â rôl a chyfrifoldeb y Cyfarwyddwr Meddygol
- Archwilio Adran 5 Gweithdrefnau Diogelu Cymru ac ymgyfarwyddo â hi ("Honiadau / Pryderon diogelu ynghylch ymarferwyr a'r rhai hynny mewn swyddi o ymddiriedaeth")
- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r systemau ar gyfer sicrwydd a datblygiadau er mwyn gwella'r graddau y mae staff iechyd yn cydymffurfio â hyfforddiant ynghylch diogelu yn GIG Cymru
- Meithrin dealltwriaeth o'r Bwrdd Iechyd fel rhiant corfforaethol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Defnyddiodd y sesiwn senarios achosion i ysgogi trafodaeth, ac roedd y sylwadau a gafwyd wrth werthuso'r sesiwn yn cynnwys awgrymiadau ynghylch gwaith dysgu pellach gyda grwpiau meddygol eraill.

Sesiwn ryngweithiol wych a senarios a oedd yn gwneud i rywun feddwl

Byddaf yn newid fy ymarfer ar ôl y gweithdy heddiw

Mae wedi bod yn braf cael cyfle i gloriannu'r sefyllfaoedd rydym wedi bod ynddynt

Gwerthuso Ymarfer ac Effaith y Rhwydwaith

Mae Arweinyddiaeth Gydweithredol drwy Rwydwaith Diogelu GIG Cymru a'i is-grwpiau wedi cael ei gwerthuso gan ddefnyddio ystod o fethodolegau ansoddol a meintiol.

Mae'r Rhwydwaith a'i is-grwpiau yn uchel iawn eu parch ar raddfa eang gan randdeiliaid y Rhwydwaith, fel cymuned ymarfer ac fel cyfrwng i hwyluso gweithgarwch ar y cyd i wella diogelu.

Cafodd adroddiadau ynghylch canfyddiadau ac argymhellion Ymgynghoriad â Rhanddeiliaid Rhwydwaith Diogelu'r GIG ac Adolygiad o Is-grwpiau'r Rhwydwaith eu hystyried yn ystod y cyfnod diwethaf. Ar sail adborth, cafodd gwelliannau eu gwneud i effeithlonrwydd swyddogaethau busnes y Rhwydwaith, effeithiolrwydd cyfathrebu a chydweithredu, a gweithgareddau canlyniadau. Mae pob thema ar gyfer gwella wedi cael sylw, ac maent yn cael eu hadolygu'n barhaus drwy gynllun gweithredu a gaiff ei dracio.

Ymarfer Rhanbarthol Arloesol

Mae aelodau'r Rhwydwaith yn mynd ati'n rheolaidd i rannu ymarfer diogelu effeithiol er mwyn nodi beth sy'n gweithio yn eu hardal nhw, meithrin ymarfer effeithiol a chyfrannu at wella diogelu ar draws GIG Cymru.

Isod ceir rhai enghreifftiau o ddatblygiadau arloesol mewn sefydliadau ac ym maes ymarfer amlasiantaeth yn ystod y cyfnod diwethaf.

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Powys Teaching Health Board

Gwella Ansawdd drwy Oruchwyliaeth Adferol

Yn ystod y cyfnod diwethaf, mynychodd pedwar Ymarferydd Diogelu Arweiniol o Fwrdd Iechyd Addysgu Powys gwrs Goruchwyliaeth Adferol pedwar diwrnod.

Nod y cwrs oedd gwella gwybodaeth a sgiliau'r ymarferwyr o safbwynt darparu goruchwyliaeth ddiogelu effeithiol, hyrwyddo amgylchedd diogel a chefnogol, a sicrhau hefyd eu bod yn gallu ymateb i'r galwadau cynyddol ar y tîm diogelu am oruchwyliaeth ddiogelu o safon mewn amryw fformatau.

Gwnaeth y dysgu hi'n bosibl i'r Arweinwyr Diogelu:

- Rymuso timau ac unigolion drwy dechnegau hyfforddi a goruchwylio.
- Dadansoddi ansawdd cydberthnasau er mwyn cynorthwyo gyda llwyddiant a lles y sawl sy'n cael eu goruchwylio.
- Archwilio technegau i oresgyn rhwystrau o ran cyfathrebu.
- Gallu hyrwyddo diogelu fel busnes craidd a chynnig goruchwyliaeth mewn proses atebol sy'n hybu, yn sicrhau ac yn datblygu gwybodaeth, sgiliau a gwerthoedd unigolyn, grŵp neu dîm.

Rhoi newid ar waith

Gwnaeth y dysgu ysbrydoli'r tîm i adolygu ymarfer cyfredol ac i wneud newidiadau i'r modd y mae'n rheoli pob cyswllt o ran goruchwyliaeth ddiogelu.

Mae hynny'n cynnwys:

- Atgoffa ymarferwyr i baratoi i rannu achosion sy'n parhau a/neu rannu profiadau blaenorol mewn sefyllfaoedd diogelu, ar gyfer sesiynau goruchwylio grŵp, gan ddefnyddio'r model arwyddion diogelwch.
- Datblygu senarios o Adolygiadau Ymarfer Plant, Adolygiadau Ymarfer Oedolion ac Adolygiadau Dynladdiad Domestig i'w defnyddio mewn sesiynau goruchwylio grŵp pan na fydd ymarferwyr efallai'n gallu darparu achosion. Mae hynny'n ei gwneud yn bosibl dangos y broses ddysgu o rannu achosion a sefyllfaoedd, gan rannu'r gwersi a ddysgir o adolygiadau hefyd.
- Gwella ymwybyddiaeth a sgiliau ynghylch y ffordd orau o annog ymarferwyr i rannu agweddau emosiynol ar weithio ym maes diogelu a myfyrio yn eu cylch.

Rwy'n gwerthfawrogi'r ffaith i chi ddefnyddio eich sesiwn goruchwyliaeth ym maes diogelu i ddadansoddi fy achos i. Helpodd hynny fi i ddeall sefyllfa fy nghleient yn glir, a deall pa gamau yr oedd angen i fi eu cymryd. Roedd hefyd yn braf clywed gan bobl eraill yn y grŵp diogelu, er enghraifft y ddynes o'r tîm amenedigol a ddywedodd sut y gallai gwasanaeth y tîm hwnnw fod yn ddefnyddiol, a chael cefnogaeth gyffredinol gan eraill a chydnabyddiaeth bod y sefyllfa dan sylw'n un anodd a chymhleth.

Dim ond nodyn bach i ddiolch am eich amser ac am y cyngor clir a chryno ynghylch diogelu, a oedd yn ddefnyddiol mewn sawl ffordd.

Sicrhau Ansawdd ar gyfer Adolygiadau

Mae Tîm Diogelu a Diogelu'r Cyhoedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi datblygu Grŵp Sicrhau Ansawdd sy'n ymdrin ag Adolygiadau Ymarfer Plant, Adolygiadau Ymarfer Oedolion ac Adolygiadau Dynladdiad Domestig.

Mae'r grŵp yn monitro gweithgarwch adolygu ar draws y gogledd er mwyn sicrhau bod modd i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gynnig sicrwydd o safbwynt gwaith dysgu a nodwyd.

Mae'r Grŵp Sicrhau Ansawdd yn cwrdd bob mis i:

- Nodi dysgu cynnar ar gyfer y Bwrdd Iechyd a chytuno ar unrhyw gamau gweithredu angenrheidiol
- Nodi unrhyw heriau/llithriadau yn y broses
- Nodi a rhannu arfer da er mwyn hybu dysgu
- Cofnodi'r prif themâu a'r prif dueddiadau er mwyn hybu camau gweithredu yn y dyfodol
- Cofnodi data y cytunwyd arno
- Ymateb i unrhyw ysgogiadau ar gyfer camau mewnol i uwchgyfeirio materion i'r Cyfarwyddwr Diogelu a Diogelu'r Cyhoedd.

Mae aelodau'r Grŵp yn gyfrifol am ddosbarthu gwybodaeth i'r Tîm Diogelu a Diogelu'r Cyhoedd ac i'r sefydliad ehangach fel y bo'n briodol, ac am archwilio swyddogaethau'r Grŵp.

Mae ei brif swyddogaethau'n cynnwys:

- Sicrhau bod unrhyw ddysgu a nodwyd yn cael ei ymgorffori mewn pecynnau hyfforddiant perthnasol
- Datblygu Sesiynau Briffio Saith Munud perthnasol
- Dylanwadu ar bolisi, gweithdrefnau ac arweiniad mewnol a lleol
- Sicrhau bod camau i uwchgyfeirio a rhannu gwybodaeth yn digwydd yn brydlon
- Rhannu gwaith dysgu a gwybodaeth ar draws y Bwrdd Iechyd
- Datblygu arbenigedd o safbwynt ymgysylltu ag Adolygiadau Ymarfer Plant, Adolygiadau Ymarfer Oedolion ac Adolygiadau Dynladdiad Domestig ac o safbwynt swyddogaeth yr Adolygiadau hynny
- Cydweithio â'r Grŵp Gorchwyl ar Bolisïau a Gweithdrefnau Diogelu er mwyn sicrhau bod gwaith dysgu'n cael ei gynnwys ym mholisïau a gweithdrefnau'r Bwrdd Iechyd
- Sicrhau bod tudalen y Bwrdd Iechyd ar y we am ddiogelu'n adlewyrchu yn gywir yr hyn a ddysgwyd o Adolygiadau Ymarfer Plant, Adolygiadau Ymarfer Oedolion ac Adolygiadau Dynladdiad Domestig.

Drwy'r gweithgarwch uchod, mae'r Grŵp Sicrhau Ansawdd yn esiampl o waith dysgu amlasiantaeth ac mae'n gosod sylfaen effeithiol ar gyfer dysgu.

Sefydlu Rhwydwaith Hyrwyddwyr Diogelu cadarn

Mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn darparu gwasanaethau oncoleg arbenigol heb lawfeddygaeth ar draws de-ddwyrain Cymru ar gyfer poblogaeth o 1.7 miliwn, ac mae hefyd yn rheoli Gwasanaeth Gwaed Cymru sy'n gyfrifol am gasglu, prosesu a dosbarthu gwaed a chynnyrch gwaed i bob ysbyty ar draws Cymru, gan wasanaethu poblogaeth o 3.3 miliwn.

Ein hethos yn yr Ymddiriedolaeth yw sicrhau bod Diogelu yn 'fater i bawb', a bod arwain a chyflawni'r agenda o ran Diogelu yn gyfrifoldeb i bob aelod o staff ar bob lefel. Mae hynny'n arbennig o bwysig yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru sydd â thimau casglu gwaed ym mhob cwr o Gymru, a chafodd y gwaith o ledaenu gwybodaeth am Ddiogelu ym mhob ardal ei ystyried yn flaenoriaeth fel bod y timau casglu gwaed sy'n gweithio mewn unedau symudol yn unrhyw un o ardaloedd Cymru yn gallu cael mynediad i gymorth prydlon o ran Diogelu.

Er mwyn hybu'r newid mewn diwylliant a gwella gwybodaeth a set sgiliau ein staff, rydym wedi bod yn gweithio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i ddatblygu rhwydwaith cryf a chadarn o Hyrwyddwyr Diogelu amlbroffesiwn ym mhob rhan o Wasanaeth Gwaed Cymru (ledled Cymru) a Gwasanaethau Canser Felindre.

Hyd yma, mae 47 o aelodau o staff wedi dod yn hyrwyddwyr Gofyn a Gweithredu, sy'n cynnwys staff o Wasanaeth Gwaed Cymru, staff o'r adrannau radiograffeg, fferylliaeth a therapïau, a hyd yn oed aelodau o garfan newydd o fyfyrwyr rhyngwladol. Yn ystod chwarter cyntaf 2024, bydd aelodau o'n tîm Addysg a Hyfforddiant hefyd yn ymgymryd â sesiynau hyfforddi'r hyfforddwr Gofyn a Gweithredu, a hwylusir gan Cymorth i Fenywod Cymru, a bydd hynny'n meithrin cydnerthedd pellach o ran cyflawni hyfforddiant ynghylch diogelu.

At hynny, mae pum aelod o staff wedi gwirfoddoli i fod yn hyrwyddwyr diogelu ar draws is-adrannau, sy'n cynnwys is-adrannau therapïau, adnoddau dynol a Gwasanaeth Gwaed Cymru.

Yn y dyfodol

Y cynllun ar gyfer 2024-2025 yw sefydlu'r fframwaith hyrwyddwyr yn effeithiol, gan feithrin cydnerthedd pellach drwy gyflwyno hyfforddiant ynghylch diogelu.

Mae'r gweithgarwch arfaethedig yn cynnwys:

- Ailsefydlu cyfarfodydd bob chwarter, a fydd yn cynnig goruchwyliaeth a chymorth i'r hyrwyddwyr.
- Hysbysebu cyfleoedd i hyrwyddwyr fynychu hyfforddiant allanol ynghylch diogelu, gan y Byrddau Diogelu Rhanbarthol.
- Rhyddhau staff Gwasanaeth Gwaed Cymru i ymgymryd â sesiynau hyfforddi'r hyfforddwr Gofyn a Gweithredu, a hwylusir gan Cymorth i Fenywod Cymru.

Sesiwn Friffio a Fideo am Gysgu'n Ddiogel

Sesiwn Friffio

Yn dilyn nifer o farwolaethau sydyn babanod ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, bu'r Tîm Diogelu Corfforaethol a bydwraig ddiogelu o'r Tîm Bydwreigiaeth ac Ymwelwyr Iechyd yn cydweithio i lunio sesiwn friffio saith munud ar gyfer partneriaid amlasiantaeth. Roedd y sesiwn friffio yn cynnwys yr hyn a ddysgwyd o Adolygiadau Ymarfer Plant ac adolygiadau'r Bwrdd Iechyd, ac roedd yn nodi pwysigrwydd sicrhau bod partneriaid ac aelodau estynedig o'r teulu yn teimlo'n hyderus ynghylch arferion cysgu diogel wrth ofalu am fabanod. Roedd y dysgu ychwanegol yn cynnwys pwysigrwydd yr angen i ymarferwyr asesu gallu rhiant i ddeall a dilyn cyngor, gan ystyried iechyd meddwl, anableddau dysgu a rhwystrau ieithyddol.

Fideo

I gydnabod y rhwystrau sy'n gysylltiedig â chofio negeseuon allweddol am iechyd, cafodd fideo'n dangos safleoedd cysgu diogel ei greu a'i ddarparu ar gyfer rhieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol, drwy god QR.

Dosbarthu

Cafodd y sesiwn friffio saith munud a'r cod QR eu dosbarthu i asiantaethau partner drwy'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, gan sicrhau bod ymarferwyr sy'n gweithio gyda theuluoedd yn gallu hyrwyddo cyngor cyfredol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ynghylch arferion cysgu diogel ac yn gallu adnabod unrhyw arferion cysgu anniogel. Cafodd yr adnoddau eu rhannu drwy sianelau'r sefydliad ar gyfryngau cymdeithasol ac ar draws gwasanaethau acíwt a chymunedol ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg, er mwyn hyrwyddo arferion cysgu diogel yn ystod yr Wythnos Ddiogelu a Chysgu'n Ddiogel. At hynny, gwnaeth nifer o adrannau achosion brys a wardiau pediatrig greu hysbysfyrddau i hyrwyddo negeseuon allweddol i staff a'r cyhoedd.

Yn y dyfodol, bydd gwaith ar ddatblygu deunyddiau dysgu'n parhau, gyda'r bwriad o adolygu cyngor yn rheolaidd, yn enwedig pan fydd gan fabanod anghenion ychwanegol o ran iechyd neu pan fyddant yn cael eu derbyn i'r ysbyty.

Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Welsh Ambulance Services University NHS Trust

Cynhadledd Gweithlu sy'n Ystyriol o Drawma

Yn ystod y cyfnod diwethaf, cynhaliodd Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru gynhadledd ddiogelu ynghylch 'Gweithlu sy'n Ystyriol o Drawma'.

Croesawodd y gynhadledd gynrychiolwyr o bob un o gyfarwyddiaethau'r Ymddiriedolaeth, ynghyd â chynrychiolwyr o asiantaethau partner allanol ac arweinwyr diogelu o wasanaethau ambiwlans eraill yn y DU.

Roedd y diwrnod yn cynnwys cyflwyniadau arbenigol ar ddiogelu'n ymwneud â phob grŵp oedran, a straeon trawiadol amrywiol am oroeswyr. Roedd amrywiaeth o stondinau yno hefyd, a oedd yn cynrychioli amryw dimau'r Ymddiriedolaeth ac asiantaethau allanol gan gynnwys 2wish, Mind a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Oherwydd y pynciau a oedd yn cael eu trafod, roedd modd i bobl fynd i ardal bwrpasol drwy gydol y diwrnod i gael cymorth ac i ofalu am eu lles.

Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod

Taflodd Iechyd Cyhoeddus Cymru oleuni ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac ar ymarfer sy'n ystyriol o drawma, gan dynnu sylw at bwysigrwydd empathi a thosturi. Rhannodd 'Lads Like Us' eu profiad go iawn o ddioddef camdriniaeth yn ystod plentyndod, gan ddangos pwysigrwydd cael ymarferwyr i ddangos chwilfrydedd proffesiynol a mabwysiadu dulliau ymarfer sy'n ystyriol o drawma.

Byw Heb Ofn

Rhoddodd Rheolwr y Llinell Gymorth Byw Heb Ofn wybodaeth werthfawr a oedd yn disgrifio'r gefnogaeth y gall y llinell gymorth ei darparu. Rhannodd Ruth Dodsworth, sy'n newyddiadurwr gydag ITV, stori emosiynol am ei phrofiad personol o gamdriniaeth ddomestig ac o ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol.

Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn ddaeth â'r diwrnod i ben drwy ddarparu ystadegau syfrdanol am nifer y bobl hŷn sy'n profi camdriniaeth. Yn gwmni i'r Swyddfa yr oedd rhywun a oedd wedi goroesi camdriniaeth, a rannodd ei brofiad ef o ddioddef camdriniaeth yn ystod cyfnod mwy diweddar yn ei fywyd.

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cardiff and Vale University Health Board

Asesiadau Iechyd Prydlon i Blant sy'n Derbyn Gofal

Drwy gynllun peilot cychwynnol, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi cyflwyno ffordd newydd o gwblhau asesiadau iechyd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Roedd yr asesiadau yr oedd angen eu cynnal wedi bod yn ôl-gronni ers amser ac roeddent yn parhau i ôl-gronni, ac roedd angen ymateb a gwella ar unwaith er mwyn cydymffurfio â'r Ddyletswydd Statudol.

O ganlyniad, mae'r Gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd wedi bod yn cynorthwyo'r Pediatregydd a Enwir i gwblhau'r asesiadau iechyd yn brydlon.

Caiff plant dan 5 oed eu hasesu gan Ymwelydd Iechyd cymwys. Mae'n ddull ymarfer sydd wedi cael adborth da wrth ei werthuso, a gwelwyd nifer yr asesiadau a oedd ar y rhestr aros yn gostwng yn syth.

Poster Cysgu'n Ddiogel

Mae poster Cysgu'n Ddiogel wedi'i ddatblygu gan ymarferwyr amlddisgyblaethol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a oedd yn cynnwys gweithwyr proffesiynol o'r Tîm Diogelu Corfforaethol, y Tîm Pediatreg, y Tîm Bydwreigiaeth ac Ymwelwyr Iechyd ynghyd â Heddlu De Cymru.

Nodwyd yr angen am daflen i rieni, a oedd yn cynnwys y drosedd o orwedd ar rywun (overlay)*. Roedd y wybodaeth honno ar goll o'r taflenni a oedd ar gael ar y pryd i rieni/gofalwyr.

Mae'r angen i'r wybodaeth hon gael ei rhannu â rhieni/gofalwyr wedi cael ei nodi mewn trafodaethau achos yn y rhanbarth ynghylch Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaethau Annisgwyl yn ystod Plentyndod. Mae'r sefydliad wedi rhannu'r daflen â sefydliadau eraill GIG Cymru drwy'r Rhwydwaith er mwyn iddi gael ei defnyddio'n genedlaethol.

*esbonnir mai ystyr "overlay" yn Saesneg yw bod rhywun yn cael ei fygu (ac nad yw hynny wedi'i achosi gan glefyd na chan bresenoldeb gwrthrych dieithr yn y gwddf neu'r llwybrau anadlu)

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board

Cysylltu Iechyd Meddwl

Enillodd Gwasanaeth Iechyd Meddwl Amenedigol a Babanod Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda y wobr Cyflawniad Arbennig ym maes Iechyd Meddwl yng Ngwobrau Consultant Connect 2023.

Mae'r llinell Iechyd Meddwl Amenedigol yn cysylltu ymwelwyr iechyd, bydwragedd cymunedol a meddygon teulu â'r Tîm Iechyd Meddwl Amenedigol. O'r blaen, roedd hi'n anodd cysylltu'n uniongyrchol â'r tîm ac nid oedd defnydd digonol yn cael ei wneud ohono'n aml, a oedd yn golygu bod cleifion yn cael eu cyfeirio at lwybrau amhriodol.

Mae'r Tîm Iechyd Meddwl Amenedigol yn adolygu achosion cyn eu bod yn cael eu hatgyfeirio, sy'n golygu bod cynlluniau wedi'u teilwra yn fwy helaeth yn cael eu creu ar gyfer rheoli cleifion. Mae'r fenter wedi arwain at wybodaeth well am y llwybrau priodol sydd ar gael, ac wedi arwain at newid i ddull o ofalu sy'n canolbwyntio ar y claf.

Cam-drin Domestig a'r Menopos

Gwnaeth Nyrs Arweiniol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Diogelu – Cam-drin Domestig a'r Menopos ddrafftio a dosbarthu'n eang sesiwn friffio saith munud er mwyn codi ymwybyddiaeth o Gam-drin Domestig a'r Menopos.

Rhoddodd gyflwyniad ar y pwnc ar Ddiwrnod Menopos y Byd ar 10/11/23 i rai sy'n cael eu hyfforddi i fod yn feddygon teulu, ac yng Nghynhadledd y Bwrdd Iechyd ynghylch Iechyd y Pelfis.

Dosbarthiadau Meistr am Faethu

Mae Nyrsys Plant sy'n Derbyn Gofal ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi cynorthwyo'r Rhwydwaith Maethu drwy fod yn brif gyfranwyr yn y dosbarthiadau meistr rhanbarthol am faethu, a ddarparwyd ar gyfer gofalwyr maeth.

Mae'r rhaglen Llesiant wrth Faethu wedi'i llunio o safbwynt siwrnai plentyn drwy'r system ofal ac o safbwynt y cydberthnasau y mae'n eu meithrin. Mae'r rhaglen yn cynrychioli plant sydd mewn gofal, drwy ddarparu rhaglen amlasiantaeth ar draws gwasanaethau cymdeithasol, y sector iechyd, y sector addysg a'r sector cyflawnder ieuenctid, ac mae'n cydnabod bod gweithio mewn modd amlasiantaeth drwy fframwaith partneriaeth yn hanfodol er mwyn gwella canlyniadau.

Gweithdrefnau Diogelu'n ymwneud â Sbesimenau Microbioleg ac Ymholiadau Clinigol

Y broblem

Cafodd pryder mawr am achosion a amheuid o gam-drin plant yn rhywiol ei nodi yn yr Adran Ficrobioleg yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, a hynny drwy bryder am ddiogelu yr adroddwyd yn ei gylch drwy'r system DATIX ar gyfer adrodd ynghylch digwyddiadau. O ganlyniad, gwnaed cais i gynnal proses sgrinio iechyd rhywiol ar gyfer plentyn ifanc, a arweiniodd at ymholiadau ac ymchwiliadau pellach gan yr Arweinydd a Enwir ar gyfer Diogelu. Drwy oruchwyliaeth a chysylltiad uniongyrchol â'r ymarferydd a wnaeth y cais, nodwyd bod gan y plentyn hanes hir o bryderon am ddiogelu. Rhoddwyd cyngor i'r achos gael ei gyfeirio at yr awdurdod lleol perthnasol gan nodi bod yna amheuaeth bod y plentyn yn cael ei gam-drin yn rhywiol.

Ymgysylltu

Arweiniodd hynny at gynnal sawl cyfarfod â'r Adran Ficrobioleg er mwyn deall y prosesau a roddir ar waith wrth gael a phrosesu samplau lle caiff pryderon am ddiogelu eu nodi efallai. Mae diogelu'n gyfrifoldeb i bawb, felly un o'r prif themâu dysgu a nodwyd drwy adolygiadau ymarfer yw chwilfrydedd proffesiynol. Mae gan dimau Microbioleg rôl allweddol i'w chyflawni o safbwynt deall a yw gweithdrefnau diogelu wedi'u dilyn pan gaiff pryderon am ddiogelu eu nodi, a hynny drwy gael sbesimenau neu ymholiadau clinigol.

Gweithdrefn Ddiogelu ar gyfer Microbioleg yn GIG Cymru

Arweiniodd hynny at sefydlu gweithgor ym maes Microbioleg a gyda'r Arweinydd a Enwir ar gyfer Diogelu er mwyn datblygu Gweithdrefn Weithredu Safonol o ran Diogelu ar gyfer Microbioleg yn GIG Cymru. Mae'r agwedd hon ar wella diogelu'n cydnabod bod pawb yn gyfrifol am ddeall eu cyfrifoldebau proffesiynol sy'n gysylltiedig â diogelu, ac nad yw camdriniaeth bob amser yn amlwg efallai. Mae datblygu'r weithdrefn wedi arwain at gydberthnasau gwell, mwy o gydweithredu, a chynnydd yn nifer y pryderon posibl am ddiogelu yr adroddir yn eu cylch ym maes Microbioleg.

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Swansea Bay University Health Board

Eiriolwr Annibynnol Trais Domestig

Mae Eiriolwr Annibynnol Trais Domestig Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn darparu cymorth yn y rheng flaen yn yr Adran Achosion Brys, ac mae'n cael atgyfeiriadau hefyd o bob rhan o'r Bwrdd Iechyd. Caiff cymorth ei ddarparu i unigolion ar sail angen a risg a aseswyd, a chaiff achosion eu hatgyfeirio er mwyn cael cymorth parhaus.

Mae Eiriolwr Annibynnol Trais Domestig y Bwrdd Iechyd hefyd yn darparu cymorth i gleifion sy'n mynychu apwyntiadau yn yr Adran Cleifion Allanol, ac mae'n darparu lle diogel i gleifion sy'n profi camdriniaeth ddomestig. Gall cleifion mewnol gael mynediad i'r gwasanaeth am gyfnod byr.

Yn ystod y cyfnod diwethaf, gwelodd y gwasanaeth gynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau'n ymwneud â staff sy'n dioddef camdriniaeth ddomestig, sy'n gallu cael mynediad i'r gwasanaeth. Bydd yr Eiriolwr Annibynnol Trais Domestig yn trafod y cymorth sydd ar gael – gan gynnwys mynediad i lety gan yr ysbyty (os nad yw'n ddiogel i'r sawl dan sylw ddychwelyd adref), ffôn symudol a thalebau i gael prydau bwyd yn ffreutur yr ysbyty.

Mae'r cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau, fel y dangosir gan y siart atgyfeiriadau, yn dangos yr angen am y gwasanaeth ac yn amlygu ymhellach bod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn broblem.

Atgyfeiriadau i'r Eiriolwr Annibynnol Trais Domestig 2022-23 / 2023-24



Adnabod ac Atgyfeirio i Wella Diogelwch

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe wedi cyflwyno'r rhaglen Adnabod ac Atgyfeirio i Wella Diogelwch mewn practisiau meddygon teulu ar draws Abertawe, Castell-nedd a Phort Talbot.

Mae'r fenter yn fodel hyfforddi, atgyfeirio ac eiriolaeth, sy'n helpu clinigwyr i gynnig cymorth gwell i'w cleifion y mae trais a chamdriniaeth ddomestig yn effeithio arnynt. Caiff y fenter ei lletya gan Calan, sef sefydliad sy'n arbenigo mewn ymdrin â thrais a chamdriniaeth ddomestig, ac mae ar gyfer menywod sy'n profi trais a chamdriniaeth ddomestig gan eu partner presennol, eu partner blaenorol neu aelod o'r teulu sy'n oedolyn, ac mae'n darparu gwybodaeth i ddioddefwyr sy'n ddynion ac i'r sawl sy'n cyflawni trais a chamdriniaeth ddomestig, ac yn eu cyfeirio at wasanaethau priodol.

Mae'r tîm yn cynnwys dau Addysgwr sy'n Eiriolwyr, sy'n darparu cymorth arbenigol ym maes trais a chamdriniaeth ddomestig i gleifion sy'n cael eu cyfeirio at y gwasanaeth ac i arweinydd clinigol meddygon teulu. Mae'r hyfforddiant a'r cymorth yn helpu staff practisiau meddygon teulu i adnabod arwyddion trais a chamdriniaeth ddomestig, yn rhoi hyder iddynt ofyn cwestiynau priodol ac yn rhoi cyfle i gyfeirio cleifion at eiriolwr sy'n arbenigo mewn ymdrin â thrais a chamdriniaeth ddomestig. Mae'r rhaglen yn cael adborth da pan gaiff ei gwerthuso gan gleifion a staff.

Rwyf wedi gadael heb unrhyw eiddo, ond mae gen i fy rhyddid, felly mae gen i bopeth.

ADBORTH GAN GLAF

Dysgu Amlasiantaeth o Achosion Diogelu Plant

Yn ystod y cyfnod diwethaf, sylwodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan fod yna lawer o Achosion Diogelu Plant nad ydynt yn cyrraedd y trothwy ar gyfer Adolygiad Ymarfer Diogelu, oherwydd bod canlyniad diogel wedi'i gyflawni ar gyfer y plentyn.

Fodd bynnag, nodwyd bod cyfleoedd o hyd i'r asiantaethau dan sylw ddysgu gyda'i gilydd er mwyn cryfhau ymarfer.

Yn aml, mae'r cyfleoedd hynny'n deillio o achosion lle cafwyd canlyniad cadarnhaol, ac maent naill ai'n amlwg fel meysydd lle mae cydweithio wedi bod yn rhagorol neu'n amlwg fel achosion lle nad oedd systemau a phrosesau cyfredol yn gydnaws, sy'n cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i arloesi.

Sesiynau Dysgu Amlasiantaeth

Mae'r Meddyg a Enwir sydd gan y Bwrdd Iechyd ar gyfer Diogelu Plant wedi trefnu chwe sesiwn, gan agor strwythur dysgu presennol yr Adran Bediatrig i gydweithwyr o bum awdurdod lleol Gwent a Heddlu Gwent. Bydd y sesiynau'n canolbwyntio ar achosion neu themâu penodol a nodwyd drwy archwiliadau adrannol, ac maent wedi cael eu mynychu'n dda gan sefydliadau partner. Byddant yn ei gwneud yn bosibl cael sgyrsiau anodd mewn amgylchedd diogel, gan godi ymwybyddiaeth o ragfarn ddiarwybod ac o'r amryw heriau y mae asiantaethau yn dod ar eu traws. Yn ystod y sgyrsiau, cytunir ar gamau gweithredu unigol a fydd yn ymwneud yn ôl pob tebyg ag angen i ddiweddaru darpariaeth addysgol neu ddiwygio polisi neu weithdrefnau gweithredu.

Y potensial i ehangu

Yn dilyn llwyddiant y sesiynau hyn mewn lleoliad pediatrig, mae'r sefydliad ehangach yn awyddus i addasu'r model hwn er mwyn dysgu o achosion unigol ym maes diogelu oedolion.

Blaenoriaethau ar gyfer y Dyfodol

Wrth edrych tua 2024/2025, bydd y Rhwydwaith yn parhau i adeiladu ar y sylfaen wybodaeth a'r cydberthnasau cadarn y mae wedi'u creu hyd yma, gan gydweithio er mwyn creu 'Cymru lle mae pawb yn ddiogel'.

Canolbwyntir yn gadarn ar ansawdd a sicrwydd ym maes diogelu, ar ddysgu ac ar gryfhau partneriaethau. Bydd gwaith yn y dyfodol yn cael ei ysgogi gan newidiadau mewn deddfwriaeth ac arweiniad statudol, sy'n digwydd ar hyn o bryd ac sydd ar ddod, gan ddysgu o adolygiadau diogelu diweddar, argymhellion ac adborth. Ar ben hynny y mae'r gwelliannau a nodwyd o broses adolygu sicrwydd y Matrics Aeddfedrwydd Diogelu, sy'n broses flynyddol, a materion newydd cyffredin a fyddai'n elwa o arweinyddiaeth a chysondeb ar draws GIG Cymru.

Bydd y canlyniadau a gyflawnir yn ystod y cyfnod nesaf yn cynnwys:

- Hyfforddiant ac arweiniad cenedlaethol GIG Cymru ynghylch Diogelwch Rhywiol.
- Gwerthuso prosesau'n ymwneud â gwaith dysgu a rannwyd am ddiogelu, er mwyn deall pa mor effeithiol y mae'r gwaith hwnnw yn cyrraedd ymarferwyr yn y rheng flaen.
- Arweiniad cenedlaethol ynghylch oedolion a phlant sydd heb eu danfon, oherwydd mae hynny wedi'i nodi yn ffactor risg sylweddol mewn achosion o gamdriniaeth ac esgeulustod.
- Proses atgyfeirio ar gyfer yr adeg pan fydd plentyn yn dod yn blentyn sy'n derbyn gofal, er mwyn gwella'r hysbysiad cyfredol gan yr awdurdod lleol.
- Dull cenedlaethol o gynnal archwiliadau meddygol amddiffyn plant, ac o adrodd yn eu cylch.
- Arweiniad diogelu cenedlaethol ar gyfer sesiynau ymgynghori o bell gan ymarferwyr iechyd.
- Templed GIG Cymru ar gyfer Strategaeth Ddiogelu.
- Arweiniad wedi'i ddiweddaru ynghylch ymdrin ag achosion o anffurfio organau cenhedlu benywod, sy'n cynnwys adnoddau archwilio cymeradwy.
- Adnodd archwilio cenedlaethol ar gyfer yr Ymholiad Arferol i Gam-drin Domestig ar gyfer Ymwelwyr Iechyd a Bydwragedd.
- Cyfres o egwyddorion gofal iechyd yn ymwneud â phlant sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.
- Alinio proses y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol (Diwygio), gan ymgorffori adborth defnyddwyr gwasanaeth.
- Safonau hyfforddi cenedlaethol ar gyfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol/Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, i'w defnyddio ar draws GIG Cymru.
- Cyflwyno digwyddiadau Gwrando, Dysgu a Gwella amlasiantaeth ynghylch diogelu.
- Gweithredu cynllun rheoli manteision a'r gwersi a ddysgwyd er mwyn egluro effaith hirdymor ac ymgorffori dysgu parhaus yn yr hyn y mae'r Rhwydwaith yn ei gyflawni.